Cysgu efo'r llewod

Dyfalbarhad / gostyngeiddrwydd / sefyll dros yr hyn rydym yn ei gredu / dewrder

Rwy'n siŵr eich bod wedi gweld llewod yn y sŵ. Maen nhw'n anifeiliaid cryf iawn. Beth petaech chi'n gorfod mynd i mewn i gawell y llewod? Mae'r stori hon yn sôn am ddyn a gafodd ei daflu i ffau'r llewod.

Roedd Daniel yn byw mewn gwlad ddieithr. Gan ei fod yn ddyn arbennig roedd yn gweithio ym mhalas y brenin. Ond doedd o ddim yn hoffi byw yn y wlad ddieithr. Buasai wrth ei fodd cael bod gartref yn ei wlad ei hun. Bob dydd byddai'n gweddïo ar Dduw, "O Dduw, buaswn wrth fy modd cael mynd adref yn ôl i'm gwlad fy hun."

Daeth brenin newydd i'r wlad ddieithr. Darius oedd ei enw. Roedd wrth ei fodd efo Daniel. Bob tro byddai'r brenin eisiau help byddai'n galw ar Daniel. Doedd y gweithwyr eraill ddim yn hoffi hyn.

"Pam na wnaiff y brenin alw arnom ni?" medden nhw wrth ei gilydd. Un diwrnod dyma'r gweithwyr eraill yn dod at ei gilydd. "Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth i gael gwared â Daniel."

"Y drwg ydi," meddai un o'r gweithwyr, "mae o'n ddyn da a fydd o byth yn gwneud drwg i neb."

"Mae o'n ddyn sy'n caru Duw," meddai un arall o'r gweithwyr. Gyda'r nos dyma'r gweithwyr yn mynd i weld y brenin.

"Y Brenin Darius," medden nhw, "rwyt ti yn frenin da. Rwyt ti yn gallu gwneud pob dim." Roedd y brenin yn teimlo'n falch iawn o glywed hyn.

"Pam na wnei di ddweud wrth bawb yn y wlad bod rhaid iddyn nhw ofyn am bopeth gennyt ti? Yna, mi fydd y bobl i gyd yn gwybod brenin mor fawr wyt ti."

"Dyna syniad da," meddai'r brenin.

Cododd y brenin ar ei draed. Roedd pawb yn y palas yn ddistaw bach. Dechreuodd y bobl siarad, "O hyn allan, bydd yn rhaid i bob un ohonoch ofyn am bopeth gennyf fi. Y fi ydi'r brenin wedi'r cwbl."

Yna, meddai'r brenin, "Bydd pwy bynnag sydd yn gofyn i rywun arall yn cael ei daflu i'r llewod."

Roedd pawb yn y palas wedi dychryn clywed geiriau'r brenin. Ar ei ffordd adref o'r palas, roedd Daniel yn dal i feddwl am eiriau'r brenin. Bob nos byddai'n mynd ar ei liniau i weddïo ac i ddiolch i Dduw. Ond roedd hefyd yn gofyn i Dduw ei helpu. Roedd y brenin Darius wedi dweud nad oedd ganddo hawl i wneud hynny. Aeth Daniel i'w ystafell. Dechreuodd weddïo ar Dduw.

Yn yr ardd roedd rhai o'r gweithwyr wedi dilyn Daniel i'w dŷ. Roedden nhw'n cuddio tu ôl i'r gwrych. Fe glywson nhw Daniel yn gweddïo. Roedd o hefyd yn gofyn i Dduw am help. Dyma nhw'n mynd ar unwaith i balas y brenin.

"Mae Daniel wedi gofyn i Dduw am help," medden nhw wrth y brenin. Roedd y brenin yn drist. Doedd o ddim eisiau gwneud drwg i Daniel.

"Dyma hen reol wirion," meddai'r brenin wrtho'i hun. "Mi fydd rhaid i mi daflu Daniel o bawb i ffau'r llewod."

Yn y bore daeth milwyr y brenin i dŷ Daniel. Dyma fynd â fo i ffau'r llewod. Roedd y llewod yn cerdded yn araf gan edrych i fyny ac i lawr.

"Dyna ti, i ffwrdd â thi at y llewod." A dyma ei daflu at y llewod. Y noson honno wnaeth y brenin ddim cysgu winc. Roedd o'n troi a throsi trwy'r nos.

"Dwi'n gobeithio bod Daniel yn saff. Rwy'n siŵr y bydd ei Dduw yn gofalu amdano."

Yn gynnar yn y bore cododd y brenin Darius. Aeth yn syth i weld beth oedd wedi digwydd i Daniel.

Gwaeddodd y brenin, "Daniel, Daniel, wyt ti'n iawn?"

"Ydw," meddai Daniel, "rydw i wedi cysgu efo'r llewod drwy'r nos."

Dywedodd y brenin wrth ei bobl, "Mae'n rhaid i ni gredu yn y Duw y mae Daniel yn ei addoli. Mae o wedi helpu Daniel. Mae'n rhaid i ninnau ei addoli."

"Ef yw'r Duw byw..."
Daniel 6:26

Diolch, O Dduw,
am bobl ddewr,
pobl sy'n barod i sefyll yn gadarn,
beth bynnag ddaw i'w rhan.
Amen.

Pa gryfderau y mae stori Daniel yn eu dangos i ni?